neb o'r enw William Rees yn barddoni yno. Pwy gododd wedyn ond bardd gwlad diwylliedig o'r enw Robert Davies, a adnabyddid fel Bardd Nantglyn. Yr oedd ef wedi dod i'r amlwg wyth mlynedd yn gynharach yn Eisteddfod Caerwys am awdl 'Cariad i'n Gwlad' a bu'n amlwg ar ôl hynny ymhlith y Gwyneddigion. Yr un stori oedd gan Bardd Nantglyn. Ac ar ôl i'r beirdd hyn ddod yn ôl i Glwyd fe wahoddwyd William Rees i'w cyfarfod. Derbyniodd y wobr yng nghwmni Bardd Nantglyn, William Owen Pughe, Aneurin Owen, ac eraill, a chafodd Hiraethog wahoddiad i fynd ar daith gyda Bardd Nantglyn. Yr oedd ef am gasglu tanysgrifwyr i'w gyfrol *Diliau Barddas*. Ymwelodd â siroedd Fflint, Dinbych a hefyd Arfon, gan gyfarfod â nifer dda o feirdd lliwgar a fodolai yn y dyddiau hynny, y rhelyw ohonynt erbyn hyn wedi cilio i ebargofiant. Ni chlywn hyd yn oed yr haneswyr llenyddol yn sôn amdanynt bellach. Beirdd fel John Roberts (Siôn Lleyn), un arall o'r Gwyneddigion ac un o sylfaenwyr Capel Methodistiaid Calfinaidd Penmount, Pwllheli; Angharad Llwyd; Ioan Powys; Gwilym Padarn; a Gutyn Peris. Dyna'i brentisiaeth lenyddol a barddol a hefyd ei brentisiaeth fel pregethwr.

Datblygodd yn artist geiriau gyda'r medrusaf yn oes Fictoria. Ysgrifennodd lawer iawn — cofiant i Williams o'r Wern; esboniad ar yr Epistol at yr Hebreaid; nofelau fel *Cyfrinach yr Aelwyd; Helyntion Bywyd Hen Deiliwr; Llythyrau 'Rhen Ffarmwr;* a math o gyfaddasiad o *Uncle Tom's Cabin* o dan y teitl *Aelwyd F'Ewythr Robert,* a gyhoeddwyd ym 1853. Ond fe'i gwelir ar ei orau yn ei ryddiaith ac yn y blynyddoedd diwethaf hyn fe gafodd sylw haeddiannol gan Ioan Williams o Brifysgol Cymru, Aberystwyth, yn y gyfrol *Capel a Chomin*, sy'n astudiaeth o ffug chwedlau pedwar llenor Fictoraidd, a gyhoeddwyd ym 1989.


Y symbyliad a yrrodd William Rees i lunio nofelau oedd ymddangosiad nofel Harriet Beecher Stowe, *Uncle Tom's Cabin*. Yr oedd y nofel honno, fel y dadlennodd Ioan Williams, yn ffitio i berspectif Gwilym Hiraethog, sef dihuno gwerin grefyddol Cymru a rhoddi iddi nod i ymgyrraedd ato. Caethwasiaeth oedd y bwgan yn y nofel ond i lawer o weinidogion ymneilltuol fel Gwilym Hiraethog a S. R. Roberts, Llanbrynmair, yr oedd caethwasiaeth y filltir sgwâr (y tirfeddiannwr o Dori yn gormesu ar ei denantiaid o Ryddfrydwyr ac yn eu gorfodi i ddilyn trywydd nad oedd yn ddeniadol iddynt, sef bod yn wasaidd), yn bobl a fyddai'n dweud, Ie, Ie, beth bynnag fyddai'r amgylchiadau. Pobl oeddynt wedi eu gorfodi i weithredu yn erbyn eu cydwybod a'u gorfodi hefyd i dalu'r degwm i eglwys nad oedd ganddynt unrhyw deyrngarwch iddi, o leiaf ers dyddiau'r Diwygiad Methodistaidd. Prif amcan awdur *Uncle Tom's Cabin* oedd tanlinellu urddas yr unigolyn y tu fewn i fframwaith crefydd. Ac yr oedd Gwilym Hiraethog yn gweld ei gyfle fel propagandydd y werin bobl.

Dyfeisiodd sefyllfa yn *Aelwyd F'Ewythr Robert* lle mae James Harris, dyn ieuanc a gafodd addysg yn darllen yn ofalus addasiad o nofel yr Americanwraig o dras Gymreig i gynulleidfa o Gymry uniaith yn Hafod y Ceiliogwydd. Teulu o Gymry gwerinol a ddaw i'n goleuo, sef F'Ewythr Robert, hen ŵr gonest; Modryb Elin, Calfin go iawn; ei morwyn Cati; a'r gwas Jacki. Daw eraill i mewn i'r saga hefyd. Erbyn diwedd y nofel yr oedd F'Ewythr Robert wedi cofleidio crefydd, a phan dderbyniodd grefydd yr oedd Modryb Elin yn barod i lacio gafael yn y byd hwn. Ni ellir dweud fod y nofel yn un lwyddiannus o bell ffordd — mae'n llac o ran ei gwead, mae'n neidio'n ormodol o un darlun i'r llall ond er hynny mae yna argyhoeddiad ac ymgais ymroddedig i sgrifennu hanes gŵr sy'n medru mwynhau rhyddid o ran meddwl ac ysbryd er bod caethiwed a gormes o'i amgylch.

Artist geiriau oedd Gwilym Hiraethog yn y pulpud ac yn ei ysgrifbin a gwelais hyn pan ddarllenais gyfrol na chaiff fyth air gan y beirniaid llenyddol, cyfrol a gyhoeddwyd ar ôl ei farwoleth gan Wasg y Brython, sef *Adgofion Hiraethog* am y Parchedig Michael Roberts, Pwllheli. Os oes deunydd ffilm heb ei drefnu yn rhywle y mae hi yma yn atgofion William Rees.

Perthynai Michael Roberts i deulu nodedig o bregethwyr. Mab ydoedd i John Roberts, Llangwm, un o'r Methodistiaid grymus, a nai i'r seraff-bregethwr Robert Roberts o Glynnog a fu farw yn gyn-amserol. Gŵr tipyn yn swrth ar brydiau oedd ei dad a thuedd i fod yn llawdrwm ar ei gyfoeswyr ond yr oedd y mab Michael Roberts (1781-1849) yn wahanol i bawb. Teifl Hiraethog ddarlun diddorol o gyflwr crefydd yng ngogledd Cymru yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ei bortread o Michael Roberts.

Mae ei atgof ohono yn dod am dro i Lansannan yn un gwerthfawr. Wyth oed oedd William Rees ond medrodd ail-greu darlun o Michael Roberts. Iddo ef gŵr eiddil, gwannaidd ei olwg oedd y gennad, llwyd ei wedd ond hawddgar i syllu arno, o daldra canolig a llais distaw a main ond hynod o dreiddgar, hyglyw a melysber ei dôn. A cheir disgrifiad pellach o Michael Roberts gan yr artist o lenor, a hynny yn Sasiwn Dinbych ym 1823, disgrifiad un a oedd yn feistr ar y darlun cofiadwy.


AELWYD

F'EWYTHR ROBERT:

NEU,

Hanes Caban F'Ewythr Tomos.

GAN Y

PARCH. WILLIAM REES,

LIVERPOOL.

DINBYCH:

CYHOEDDWYD GAN THOMAS GEE.

MDCCCLIII.

*Wynebddalen argraffiad 1853 o* Aelwyd F'Ewythr Robert . . .

Bwriodd William Rees ei brentisiaeth fel llenor trwy newyddiaduriaeth. Bu'n llwyddiannus ryfeddol. Trwy ei bartneriaeth â John Jones, Castle Street, Lerpwl, argraffydd diwyd, cychwynnwyd y papur a elwid *Yr Amserau*. Bach oedd ei gylchrediad ar y dechrau, ac fe arbedwyd y papur rhag difancoll gan lythyrau ''Rhen Ffarmwr' a sgrifennwyd yn iaith lafar y werin bobl a adnabu Hiraethog yn ei blentyndod yn ucheldreau sir Ddinbych. Llwyddodd y tu hwnt i unrhyw ddisgwyliad ym myd newyddiaduriaeth Gymraeg. Tynnodd E. Morgan Humphreys sylw at y ffaith i Hiraethog efelychu James Russell Lovell, yr Americanwr a gyhoeddodd yn y *Boston Transcript* yr hyn a elwir *The Biglow Papers*. Cyfaddefa E. Morgan Humphreys mai ar gân y mynegai Hosea Biglow ei hun ond ni ellir gwadu'r tebygrwydd. Er hynny canmoled y beirniad weledigaeth eang Hiraethog a'i ddawn sarcastig, eironig, ac fel y llwyddai i fynd o dan groen ei gymeriadau.

Fel bardd y mae iddo le yn oriel beirdd oes Fictoria. Credaf fod y Dr Bobi Jones wedi dethol yn chwaethus ym *Mlodeugerdd* y ganrif ddiwethaf a gyhoeddwyd gan Barddas. Fel Bobi Jones credaf mai ei gynnyrch parhaol ym myd yr awen yw ei emynau, a thra bydd yr iaith Gymraeg ar dafod leferydd fe genir ei emyn 'Dyma gariad fel y moroedd' mewn gwasanaeth Cymun. Haedda rhyw dri emyn arall o'i eiddo le mewn unrhyw lyfr emynau. Cymerer:

> Cydganwn foliant rhwydd,
> I'n Harglwydd, gweddus yw

fel y gorau o ddigon i ddilyn 'Dyma gariad' i'n casgliadau o emynau. Syml, canadwy, celfydd ydynt.

Fel ymgyrchwr gwleidyddol yr oedd William Rees yn nobl ac eneiniedig. Ymgorfforiad o radicaliaeth ydoedd, er fod ynddo yntau gryn lawer o geidwadaeth (fel sydd yn y rhan fwyaf o bobl capel?). Rhaid i bobl capel gofio eu hanes a'r etifeddiaeth sy'n cyflwyno gwerthoedd ac y mae hyn yn rhoddi pwys ar gadw y gorau. Ceidwadaeth gyda 'c' fach yw hyn.

Yr oedd William Rees yn radical gan amlaf ar faterion yn ymwneud â bro ei febyd. Felly